

# Cynllun Busnes Lefel 1

## Adroddiad Monitro Chwarter 3

Cyf	Blaenoriaethau	Monitro chwarterol
<p><b>B1</b></p> <p><b>A1</b></p>	<p><b>Codi safonau dysgu ac addysgu i bob dysgwr ar draws y rhanbarth</b></p> <p><b>Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn defnyddio data, gosod targedau a gweithdrefnau olrhain yn fwy effeithiol i herio a chefnogi ysgolion er mwyn gwella perfformiad yr holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4</b></p>	<p><b>Yr hyn rydym ni'n llwyddo i'w wneud a'i wella:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella safonau yn y sector cynradd.</li> <li>• Proffil arolygu Estyn ar gyfer rhanbarth GwE yn cymharu'n ffafriol â'r proffil cenedlaethol.</li> <li>• Mae gan GwE adnabyddiaeth dda o'i hysgolion ac mae'n categoreiddio ysgolion yn briodol.</li> <li>• Mae ansawdd y gefnogaeth a'r her gan YH wedi gwella'n sylweddol. Mae rhaglenni cefnogaeth generig ac unigryw wedi arwain at welliannau mesuradwy ym mherfformiad YH unigol.</li> <li>• Fframwaith diwygiedig ar gyfer herio a chefnogi ysgolion yn dechrau cael effaith bositif ar safonau a chanfyddiadau arolygu.</li> <li>• Systemau rheoli gwybodaeth a dadansoddi data wedi'u gwella'n fawr.</li> <li>• Mae'r gwasanaeth gwella ysgolion yn defnyddio data, gweithdrefnau tracio a gosod targedau yn fwy effeithiol i herio a chefnogi ysgolion er mwyn gwella perfformiad pob dysgwr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.</li> <li>• Mae angen comisiynu gweithredu pellach, yn rhanbarthol, i sicrhau rhagor o gynnydd a newid y pwyslais ar adnoddau.</li> <li>• Proses cynllunio busnes gadarn wedi'i sefydlu gyda llinellau atebolrwydd pendant wedi'u diffinio a phwyslais clir ar wella safonau i bob dysgwr.</li> <li>• Datblygwyd ystod cyfansawdd a chydlynol o raglenni i wella safonau arweinyddiaeth, a gallu arweinwyr i wella safonau'r addysgu.</li> </ul> <p><b>Tasgau a Heriau:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu a gweithredu model gweithio diwygiedig i'r sector uwchradd ar gyfer 2017 a chyflwyno rhaglen dargedu gydlynol yn rhyw hanner o'n hysgolion uwchradd i wella safonau ac arweinyddiaeth.</li> <li>• Sefydlu a gweithredu model arweinyddiaeth ddosranedig yn y sector cynradd ac uwchradd i sicrhau bod y gweithlu yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd fwy effeithiol a chynhyrchiol er mwyn gallu codi safonau ar draws yr rhanbarth.</li> <li>• Gweithredu Adolygiad Cymheiriaid cadarn yn ALL Wrecsam a Chonwy a fydd yn rhoi sylw i faterion tanberfformiad a chynllunio gwelliant sylweddol cynaliadwy mewn perfformiad ar draws pob cyfnod allweddol.</li> <li>• Cysoni mentrau cenedlaethol ag anghenion ysgolion a grwpiau o ysgolion i gyflymu gwelliant a datblygu system ysgol sy'n hunanwella.</li> </ul>
Cynnydd: Boddhaol		

Cyf	Blaenoriaethau	Monitro chwarterol
<p><b>B2</b></p>	<p><b>Gwella ansawdd arweinyddiaeth a'i heffaith ar wella deilliannau ar draws y rhanbarth</b></p>	<p>Sefydlwyd a chyflwynwyd rhaglen datblygu arweinyddiaeth i wella ansawdd yr arweinyddiaeth ar bob lefel ar draws y rhanbarth a sicrhau bod gan yr holl ymarferwyr mewn ysgolion, ar bob lefel, sgiliau arweinyddiaeth effeithiol perthnasol.</p> <p>Darparwyd y rhaglenni canlynol ar draws y rhanbarth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>'Rhaglen Datblygu Cymorthyddion Addysgu Lefel Uwch'</i> – mae 41 o unigolion yn cymryd rhan yn rhaglen Datblygu CALU.</li> <li>• <i>'Rhaglen Datblygu Athrawon Newydd Gymhwyso'</i> ar draws rhanbarth GwE. Mae 350 o Athrawon Newydd Gymhwyso ar draws y rhanbarth sy'n dilyn rhaglen gadarn a chyson. Mae'r rhan fwyaf o'r ANG yn y rhanbarth yn</li> </ul>

Cyf	Blaenoriaethau	Monitro chwarterol																																																																																																																																						
		<p>gwneud cynnydd cadarn a chryf ar draws pob sector.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ‘Arwain Llythrennedd a Rhifedd’ – rhaglen ddatblygol i arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd – bu 132 o Arweinwyr Llythrennedd ar draws y rhanbarth ar y Rhaglen Datblygu Llythrennedd – cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Bu 143 o Arweinwyr Rhifedd ar draws y rhanbarth ar y Rhaglen Datblygu Rhifedd – cyfrwng Cymraeg a Saesneg.</li> <li>• Datblygwyd rhaglenni arweinyddiaeth ganol penodol a phwrpasol ar gyfer ‘Rhoglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion’ (PLPS), Dysgu Digidol a’r sector Ysgolion Arbennig – cymrodd 58 o athrawon ran yn y rhaglen ddatblygu PLPS.</li> <li>• ‘Rhoglen Datblygu Darpar Benaethiaid ‘i ddisodli’r CPCP. Rhaglen newydd i’w galw’n “Rhoglen Ddatblygu CPCP” – mae 30 o unigolion yn cymryd rhan ac yn llwyddo i gwblhau’r Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid.</li> </ul>																																																																																																																																						
		<table border="1"> <thead> <tr> <th rowspan="2"></th> <th colspan="4">Cyfanswm Total</th> </tr> <tr> <th>Cyfanswm Athrawon Total Teachers</th> <th>Cyfanswm Athrawon GwE Total GwE Teachers</th> <th>Cyfanswm ysgolion GwE Total GwE Schools</th> <th>Cyfanswm Sefydliad Arall GwE Total GwE Other Establishment</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td><b>Medi 2016-Gorffennaf 2017</b> <i>September 2016-July 2017</i></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td><b>Rhoglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol Carfan 4</b> <i>Middle Leadership Development Programme Cohort 4</i></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Cyfrwng Cymraeg / Welsh Medium</td> <td>26</td> <td>26</td> <td>23</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td>Cyfrwng Saesneg / English Medium</td> <td>31</td> <td>31</td> <td>28</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td><b>Rhoglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol Carfan 5</b> <i>Middle Leadership Development Programme Cohort 5</i></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Cyfrwng Cymraeg / Welsh Medium</td> <td>24</td> <td>24</td> <td>20</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td>Cyfrwng Saesneg / English Medium</td> <td>30</td> <td>30</td> <td>29</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td><b>Rhoglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol: TGCh Carfan 2</b> <i>Middle Leadership Development Programme: ICT Cohort 2</i></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Dwvyeithog / Bilingual</td> <td>24</td> <td>24</td> <td>24</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td><b>Rhoglen Datblygu Penaethiaid Carfan 3</b> <i>Headteacher Development Programme Cohort 3</i></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Dwvyeithog / Bilingual</td> <td>11</td> <td>11</td> <td>11</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td><b>Rhoglen Datblygu Penaethiaid Carfan 4</b> <i>Headteacher Development Programme Cohort 4</i></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Dwvyeithog / Bilingual</td> <td>9</td> <td>9</td> <td>9</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td><b>Rhoglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol: PLPS Carfan 2</b> <i>Middle Leadership Development Programme: PLPS Cohort 2</i></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Dwvyeithog / Bilingual</td> <td>28</td> <td>28</td> <td>27</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td><b>Rhoglen Arweinyddiaeth Llythrennedd</b> <i>Literacy Development Programme</i></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Cyfrwng Cymraeg a Saesneg / Welsh and English Medium</td> <td>59</td> <td>59</td> <td>53</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td><b>Rhoglen Arweinyddiaeth Rhifedd</b> <i>Numeracy Development Programme</i></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Cyfrwng Cymraeg a Saesneg / Welsh and English Medium</td> <td>56</td> <td>56</td> <td>54</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td><b>Rhoglen Datblygu Uwch Arweinwyr (Portal)</b> <i>Senior Leadership Development Programme (Portal)</i></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Dwvyeithog / Bilingual</td> <td>19</td> <td>19</td> <td>13</td> <td>3</td> </tr> <tr> <td><b>Rhoglen Datblygu Darpar Arweinwyr (Carfan 1)</b> <i>Aspiring Leaders Development Programme (Cohort 1)</i></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Dwvyeithog / Bilingual</td> <td>25</td> <td>25</td> <td>16</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td><b>Rhoglen Datblygu Uwch Arweinwyr Ysgolion Arbennig (C1)</b> <i>Special School Senior Leaders Development Programme (C1)</i></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Cyfrwng Saesneg / English Medium</td> <td>8</td> <td>8</td> <td>5</td> <td>0</td> </tr> </tbody> </table>		Cyfanswm Total				Cyfanswm Athrawon Total Teachers	Cyfanswm Athrawon GwE Total GwE Teachers	Cyfanswm ysgolion GwE Total GwE Schools	Cyfanswm Sefydliad Arall GwE Total GwE Other Establishment	<b>Medi 2016-Gorffennaf 2017</b> <i>September 2016-July 2017</i>					<b>Rhoglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol Carfan 4</b> <i>Middle Leadership Development Programme Cohort 4</i>					Cyfrwng Cymraeg / Welsh Medium	26	26	23	0	Cyfrwng Saesneg / English Medium	31	31	28	0	<b>Rhoglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol Carfan 5</b> <i>Middle Leadership Development Programme Cohort 5</i>					Cyfrwng Cymraeg / Welsh Medium	24	24	20	0	Cyfrwng Saesneg / English Medium	30	30	29	0	<b>Rhoglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol: TGCh Carfan 2</b> <i>Middle Leadership Development Programme: ICT Cohort 2</i>					Dwvyeithog / Bilingual	24	24	24	0	<b>Rhoglen Datblygu Penaethiaid Carfan 3</b> <i>Headteacher Development Programme Cohort 3</i>					Dwvyeithog / Bilingual	11	11	11	0	<b>Rhoglen Datblygu Penaethiaid Carfan 4</b> <i>Headteacher Development Programme Cohort 4</i>					Dwvyeithog / Bilingual	9	9	9	0	<b>Rhoglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol: PLPS Carfan 2</b> <i>Middle Leadership Development Programme: PLPS Cohort 2</i>					Dwvyeithog / Bilingual	28	28	27	0	<b>Rhoglen Arweinyddiaeth Llythrennedd</b> <i>Literacy Development Programme</i>					Cyfrwng Cymraeg a Saesneg / Welsh and English Medium	59	59	53	0	<b>Rhoglen Arweinyddiaeth Rhifedd</b> <i>Numeracy Development Programme</i>					Cyfrwng Cymraeg a Saesneg / Welsh and English Medium	56	56	54	0	<b>Rhoglen Datblygu Uwch Arweinwyr (Portal)</b> <i>Senior Leadership Development Programme (Portal)</i>					Dwvyeithog / Bilingual	19	19	13	3	<b>Rhoglen Datblygu Darpar Arweinwyr (Carfan 1)</b> <i>Aspiring Leaders Development Programme (Cohort 1)</i>					Dwvyeithog / Bilingual	25	25	16	0	<b>Rhoglen Datblygu Uwch Arweinwyr Ysgolion Arbennig (C1)</b> <i>Special School Senior Leaders Development Programme (C1)</i>					Cyfrwng Saesneg / English Medium	8	8	5	0
	Cyfanswm Total																																																																																																																																							
	Cyfanswm Athrawon Total Teachers	Cyfanswm Athrawon GwE Total GwE Teachers	Cyfanswm ysgolion GwE Total GwE Schools	Cyfanswm Sefydliad Arall GwE Total GwE Other Establishment																																																																																																																																				
<b>Medi 2016-Gorffennaf 2017</b> <i>September 2016-July 2017</i>																																																																																																																																								
<b>Rhoglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol Carfan 4</b> <i>Middle Leadership Development Programme Cohort 4</i>																																																																																																																																								
Cyfrwng Cymraeg / Welsh Medium	26	26	23	0																																																																																																																																				
Cyfrwng Saesneg / English Medium	31	31	28	0																																																																																																																																				
<b>Rhoglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol Carfan 5</b> <i>Middle Leadership Development Programme Cohort 5</i>																																																																																																																																								
Cyfrwng Cymraeg / Welsh Medium	24	24	20	0																																																																																																																																				
Cyfrwng Saesneg / English Medium	30	30	29	0																																																																																																																																				
<b>Rhoglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol: TGCh Carfan 2</b> <i>Middle Leadership Development Programme: ICT Cohort 2</i>																																																																																																																																								
Dwvyeithog / Bilingual	24	24	24	0																																																																																																																																				
<b>Rhoglen Datblygu Penaethiaid Carfan 3</b> <i>Headteacher Development Programme Cohort 3</i>																																																																																																																																								
Dwvyeithog / Bilingual	11	11	11	0																																																																																																																																				
<b>Rhoglen Datblygu Penaethiaid Carfan 4</b> <i>Headteacher Development Programme Cohort 4</i>																																																																																																																																								
Dwvyeithog / Bilingual	9	9	9	0																																																																																																																																				
<b>Rhoglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol: PLPS Carfan 2</b> <i>Middle Leadership Development Programme: PLPS Cohort 2</i>																																																																																																																																								
Dwvyeithog / Bilingual	28	28	27	0																																																																																																																																				
<b>Rhoglen Arweinyddiaeth Llythrennedd</b> <i>Literacy Development Programme</i>																																																																																																																																								
Cyfrwng Cymraeg a Saesneg / Welsh and English Medium	59	59	53	0																																																																																																																																				
<b>Rhoglen Arweinyddiaeth Rhifedd</b> <i>Numeracy Development Programme</i>																																																																																																																																								
Cyfrwng Cymraeg a Saesneg / Welsh and English Medium	56	56	54	0																																																																																																																																				
<b>Rhoglen Datblygu Uwch Arweinwyr (Portal)</b> <i>Senior Leadership Development Programme (Portal)</i>																																																																																																																																								
Dwvyeithog / Bilingual	19	19	13	3																																																																																																																																				
<b>Rhoglen Datblygu Darpar Arweinwyr (Carfan 1)</b> <i>Aspiring Leaders Development Programme (Cohort 1)</i>																																																																																																																																								
Dwvyeithog / Bilingual	25	25	16	0																																																																																																																																				
<b>Rhoglen Datblygu Uwch Arweinwyr Ysgolion Arbennig (C1)</b> <i>Special School Senior Leaders Development Programme (C1)</i>																																																																																																																																								
Cyfrwng Saesneg / English Medium	8	8	5	0																																																																																																																																				
		<p>(Arfarniad i’w gwblhau Haf 2017).</p> <p>Yn ychwanegol i’r rhaglenni rhanbarthol mae ystod o weithdai arweiniol wedi’u cyflwyno i uwch arweinwyr holl ysgolion cynradd pob hwb gyda chynlluniau pellach i’w cyfoethogi dros y tymor nesaf. Mae’r ddarpariaeth yn adeiladu a chyfoethogi ar y gweithdai gyflwynwyd i ysgolion targed llynedd ac yn canolbwyntio ar wella ansawdd arfarnu a chynllunio gwelliant. Mae gweithredu 2015-16 wedi gweld cynnydd yn y ganran o ysgolion yn y categorïau Gwyrdd a Melyn - cynnydd o 80.7% yn 2015-16 i 84.8% yn 2016-17. Yn ychwanegol, gwelir cynnydd yn y % o ysgolion sydd wedi derbyn y dyfarniadau uchaf [A neu B] yng Ngham 2 o’r broses – cynnydd o 85.3% yn 2015-16 i 89.0% yn 2016-17.</p> <p>Mae proffil arolygiadau Estyn yn y cynradd hefyd yn gadarnhaol ac yn amlygu gwelliannau cadarn. Yn 2015-16 roedd 75.0% o’r ysgolion arolygwyd [48 ysgol] wedi</p>																																																																																																																																						

Cyf	Blaenoriaethau	Monitro chwarterol
		derbyn dyfarniad <i>da neu well</i> ar gyfer ansawdd arweinyddiaeth. O'r arolygiadau sydd eisoes wedi'u cynnal yn 2016-17 [20 ysgol], mae'r ffigur wedi codi ymhellach i 80.0%. Yn 2015-16 dyfarnwyd barn <i>Anfodddhaol</i> i ansawdd arweinyddiaeth mewn 4.2% o'r ysgolion cynradd arolygwyd. Yn 2016-17 nid oes yr un ysgol wedi derbyn dyfarniad <i>Anfodddhaol</i> .
<b>Cynnydd: Da</b>		

Cyf	Blaenoriaethau	Monitro chwarterol
<b>B3</b>	<b>Datblygu system ysgol sy'n hunanwella</b>	<p>Mae pob ffrwd gwaith ar draws y rhanbarth yn cynnwys y thema drawsbynciol sef datblygu cynhwysedd parhaol tuag at System Ysgol Sy'n Hunan Wella.</p> <p>Mae'r holl bolisiau a'r gweithgareddau ar draws y rhanbarth wedi'u profi a'u cysoni yn erbyn egwyddorion ac arferion System Ysgol sy'n Hunan Wella. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth a her uniongyrchol i bob ysgol ym mhob ymweliad gan yr YH.</p> <p>Gweithredir y rhaglen herio a chefnogi i ysgolion cynradd, uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig yn yr amrywiol gategorïau cefnogaeth – Model Ysgolion Gwyrdd/Melyn Cryf, Model Ysgolion Melyn, Model Ysgolion Melyngoch/Coch – gan sicrhau bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgolion da a rhagorol yn cael lefel uwch o annibyniaeth ac yn cael eu hannog i fentro.</li> <li>• Cyd berchnogaeth a chyd gyfrifoldeb am wella safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn ysgolion ein gilydd.</li> <li>• Systemau cefnogi ysgol i ysgol yn datblygu partneriaethau newydd.</li> <li>• Arferion rhagorol ac effeithiol yn cael eu hadnabod a'u rhannu ym meysydd arweinyddiaeth ac addysgeg.</li> <li>• Mwy o gadernid yn ansawdd arweinyddiaeth.</li> </ul>
<b>Cynnydd: Boddhaol</b>		

Cyf	Blaenoriaethau	Monitro chwarterol
<b>B4</b>	<b>Gwella gweithdrefnau mewnol er mwyn sicrhau gwasanaeth herio a chefnogi effeithiol a chyson ar draws y rhanbarth</b>	<p>Comisiynwyd adolygiad o'r cryfderau a'r gwendidau cyfredol. Bydd yr adolygiad yn mapio ac yn unioni blaenoriaethau cenedlaethol yn agos gydag anghenion lleol a sicrhau bod gwelliant yn digwydd yn gyflymach ac mewn ffordd fwy hyblyg a llyfn, yn enwedig yn yr uwchradd. Bydd hefyd yn sicrhau gwelliant mewn gweithdrefnau mewnol er mwyn sicrhau gwasanaeth cefnogi a herio effeithiol a chyson ar draws y rhanbarth.</p> <p>Mae'r materion canlynol wrthi'n cael eu datblygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir ar gyfer safonau a pherfformiad ysgolion ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir ar y cyd gan yr Awdurdodau Lleol a GwE.</li> <li>• Sicrhau y gweithredir gweithdrefnau ymyrraeth statudol effeithiol yn gyson ar draws y rhanbarth.</li> <li>• Sicrhau y caiff data ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn briodol i arfarnu rhaglenni a phrosiectau i gefnogi gwelliant mewn ysgolion. Mae system</li> </ul>

<b>Cyf</b>	<b>Blaenoriaethau</b>	<b>Monitro chwarterol</b>
		<p>rheoli data gadarn ar waith fel bod modd rheoli a dadansoddi data yn fwy effeithiol ar draws ysgolion. Mae mynediad UDRh a Bwrdd Rheoli GwE at ddata, a'u defnydd ohono, wedi gwella i sicrhau bod pryderon rhanbarthol/ALI yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw mewn ffordd effeithiol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau mwy o gysondeb ar draws yr Hybiau yn ansawdd arfarniadau'r Ymgynghorwyr Her, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu ac arweinyddiaeth.</li> <li>• Gwella ansawdd y gefnogaeth a'r her i ysgolion drwy gyfrwng yr Ymgynghorwyr Her a, thrwy hynny, sicrhau gwell cysondeb o ran ansawdd ac effaith ar draws yr hybiau.</li> <li>• Adolygu'r strategaeth recriwtio er mwyn gofalu bod y gwasanaeth rhanbarthol yn gallu denu ymarferwyr uwchradd safonol ac effeithiol i swyddi allweddol.</li> <li>• Sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd fynediad at gefnogaeth bynciol arbenigol mewn mathemateg, Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf a gwyddoniaeth yn CA4: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae cefnogaeth arbenigol Ymgynghorydd Her ar draws y rhanbarth ym mhob pwnc craidd.</li> <li>- Mae strategaeth gyfansawdd i wella safonau Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg wrthi'n cael ei datblygu ar draws y rhanbarth.</li> <li>- Drwy rwydweithiau lleol i Benaethiaid Adran, sefydlwyd rhaglen gefnogaeth ysgol i ysgol yn y Pynciau Craidd yn CA4.</li> </ul> </li> </ul>
<b>Cynnydd: Da</b>		

<b>Cyf</b>	<b>Blaenoriaethau</b>	<b>Monitro chwarterol</b>
<p><b>B5</b></p> <p><b>A2</b></p> <p><b>A3</b></p> <p><b>A4</b></p>	<p><b>Sicrhau llywodraethu, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol GwE</b></p> <p><b>Gwella ansawdd arfarnu wrth gyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion</b></p> <p><b>Gwella trylwyrdeb y trefniadau ar gyfer nodi a rheoli risg</b></p> <p><b>Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddo clir a bod cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro'n effeithiol</b></p>	<p>Gwella ansawdd yr arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygwyd y Fframwaith Her a Chefnogaeth i gryfhau'r effaith ar weithgareddau monitro, arfarnu a brocera'r Ymgynghorwyr Her mewn ysgolion gwyrdd/melyn cryf, ysgolion melyn ac ysgolion melyngoch/coch.</li> <li>• Sefydlwyd mesurau gwaelodlin a meini prawf llwyddiant o'r cychwyn cyntaf i helpu arfarnu effaith y gefnogaeth a ddarperir gan: y Rhaglen Her a Chefnogaeth; holl Raglenni Datblygu GwE; a'r holl fentrau a rhaglenni newydd.</li> <li>• Mae rhaglen rheoli data gadarn ar waith fel bod modd defnyddio data yn fwy effeithiol i arfarnu effaith.</li> <li>• Darparwyd hyfforddiant i staff ar arfarnu effaith eu gwaith.</li> <li>• Mae'r gwaith yn parhau i asesu effaith y targedu cynhaliaeth drwy fesur cynnydd ysgolion cefnogaeth coch a melyngoch yn erbyn targedau a meini prawf llwyddiant pendant.</li> </ul> <p>Gwella trylwyrdeb y trefniadau ar gyfer nodi a rheoli risg:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygwyd y prosesu rheoli risg cyfredol.</li> <li>• Adnabuwyd arferion da a dull addas i fireinio/gweithredu ar lefel ranbarthol.</li> <li>• Sefydlwyd proses i adnabod a dogfennu'r risgiau.</li> <li>• Datblygir polisi ar gyfer cynllunio a pherfformio prosesau rheoli risg.</li> <li>• Datblygir polisi i fonitro statws pob risg yn gyson, gweithredu'r cynllun lleihau risg fel y bo'n briodol a chymryd camau unioni fel y bo angen.</li> <li>• Ceir cynlluniau i adolygu gweithgareddau, statws a chanlyniadau'r broses</li> </ul>

Cyf	Blaenoriaethau	Monitro chwarterol
<p>A5</p> <p>A6</p>	<p><b>Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cydbwyllgor</b></p> <p><b>Datblygu fframwaith priodol ar gyfer asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun ariannol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod costau ffrydiau gwaith wedi'u nodi'n llawn.</b></p>	<p>rheoli risg gyda rheolaeth ar lefel uchel i ddatrys materion, h.y. Bwrdd Ymgynghorol, Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff y modd y darperir y gwasanaeth ei herio'n gadarn yn allanol drwy gyfrwng cyfarfodydd y Bwrdd Ymgynghorol a'r Cyd-Bwyllgor.</li> <li>• Datblygir hyfforddiant a chefnogaeth i alluogi pob aelod o staff i weithredu'r polisi rheoli risg yn llwyddiannus.</li> </ul> <p>Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddo clir a bod cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro'n effeithiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytunwyd ar strwythur cynllunio busnes a fframwaith atebolrwydd newydd gan Fwrdd Rheoli GwE.</li> <li>• Cytunwyd ar system monitro cynnydd hefyd.</li> <li>• Adolygwyd yr holl gynlluniau cyfredol ac adnabuwyd blaenoriaethau ar gyfer 2017-20.</li> <li>• Gweithredir gweithdrefnau monitro chwarterol clir a chadarn.</li> <li>• 13/01/17 – Bwrdd Rheoli GwE – cytuno ar amserlen cyflawni Cynllun Busnes ar gyfer 2017-18.</li> <li>• Adnabuwyd arferion da a dull addas i fireinio/gweithredu ar lefel ranbarthol. Mae meini prawf llwyddiant pendant wedi'u cynnwys ym mhob cynllun ar bob lefel.</li> </ul> <p>Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cydbwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y rhwydweithiau rhanbarthol – mae pwrpas, cwmpas ac aelodaeth wrthi'n cael eu hadolygu i sicrhau bod blaenoriaethau'r rhwydwaith yn unol â blaenoriaethau'r rhanbarth.</li> <li>• Bydd yr adolygiad yn cwmpasu strwythur newydd, rôl ac aelodaeth pob rhwydwaith arall. Datblygir y fframwaith atebolrwydd ar gyfer y rhwydweithiau hyn yn unol â'r broses cynllunio busnes newydd.</li> </ul> <p>Datblygu fframwaith priodol ar gyfer asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun ariannol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod costau ffrydiau gwaith wedi'u nodi'n llawn. Adolygwyd y prosesau cyfredol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithir gyda Swyddogion yr ALL a chonsortia eraill i adnabod arferion da.</li> <li>• Er mwyn gweld sut beth yw fframwaith gwerth da am arian, mae cyngor allanol yn bwnc trafod (gan weithio mewn partneriaeth â'r consortia eraill).</li> <li>• Datblygir cynllun ariannol tymor canolig i gyd-fynd â'r cynllun busnes.</li> <li>• Datblygir cynllun gweithlu i gyd-fynd â'r Cynllun Busnes.</li> <li>• Adolygwyd y prosesau cyfredol ar gyfer monitro'r gyllideb, a'u mireinio fel y bo angen.</li> <li>• Caiff cyllidebau eu monitro'n rheolaidd.</li> </ul>
<b>Cynnydd: Da</b>		

Cyf	Blaenoriaethau	Monitro chwarterol
B6	<p><b>Cyflawni mentrau perthnasol Llywodraeth Cymru ar draws y rhanbarth</b></p>	<p>Gan roi sylw i'r argymhellion a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus – parhau i ddatblygu rhwydwaith Arloesi ar draws y rhanbarth i fynd ati i fod yn rhan lawn o'r cam cynllunio a datblygu yn 2016/17 ar draws 3 llinyn y rhaglen Arloesi.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhwydwaith Arloesi ar draws y rhanbarth – cynhaliwyd y sesiwn cyntaf efo 16 ysgol yn bresennol. Aethant ati i gwblhau tasg ddilynol ar gyfer y sesiwn</li> </ul>

Cyf	Blaenoriaethau	Monitro chwarterol
		<p>nesaf ar 25.1.17. Arferir y gwaith tuag at ddiwedd y prosiect. Cynhaliwyd trafodaethau gyda 3 x UYHC – mae ysgolion ar draws y 3 hwb yn mynd i'r afael â'r rhaglenni hyn a TEEP. Mae nifer bach o ysgolion ar draws yr AauLL wedi mynd i'r afael â gwaith Partner Arloesi ac, yn rhan o hyn, maent wedi rhannu eu harferion da efo ysgolion eraill.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda 15 Ysgol Arloesi Bergen Newydd – Mae llwybr datblygu gyrfa yn dal i ddatblygu ac mae llawer o ysgolion Arloesi ac ysgolion partner Arloesi yn rhan o gyflwyno'r hyfforddiant e.e. ANG, Penaethiaid newydd, Arweinwyr Canol. Rhannwyd rhaglenni cefnogi Penaethiaid â phob ALL drwy gyfarfod rhwydwaith.</li> <li>• LIC ac OECD ym mis Rhagfyr 2016 wedi trafod y ddarpariaeth yn GwE mewn manylder. Cynhaliwyd cyfarfod dilynol yn lleol.</li> <li>• 17 ysgol ar draws GwE wedi llwyddo i dreialu SAG. Cafwyd sesiwn adrodd yn ôl gyda LIC ym mis Rhagfyr 2016, a dywedodd LIC y bu'r cyfarfod hwn yn un cadarnhaol iawn gydag ymarferwyr ymroddedig.</li> <li>• Cynhaliwyd tri sesiwn gwybodaeth ar draws y rhanbarth ym mis Tachwedd 2017 gyda'r Athro Graham Donaldson a'r Athro Mick Waters. Mynychodd dros 170 o athrawon ac Ymgynghorwyr Her – 3 o bob 6 swyddog ALL yn gallu mynychu hefyd. Sylwadau calonogol iawn gan ysgolion eisiau bod yn rhan o'r diwygio.</li> <li>• Prosiectau cynhwysedd llwyth gwaith o blith yr ysgolion Arloesi a heb fod yn Arloesi – cynhaliwyd trafodaeth ag ysgolion er nad oes unrhyw brosiectau diriaethol wedi symud ymlaen. Cynlluniwyd hyfforddiant ar reolaeth ddarbodus (LEAN) at Chwefror 2017 gyda 16 o ymarferwyr – sesiwn dilynol i'w gynnal. Cynigir gweithdai hyfforddiant darbodus i Benaethiaid yn nhymor yr Haf 2017.</li> <li>• Gweithio gyda'r 11 ysgol Arloesi Cwricwlwm i ddatblygu ymhellach cynllunio strategol mewn 4 prif faes: mae niferoedd yr ysgolion yn GwE wedi codi o 9 i 22 sy'n welliant sylweddol ar gyfer cefnogi a chyfrannu at y rhaglen genedlaethol. Dosbarthwyd cyfrifoldebau'r tîm Arloesi yn effeithiol i gefnogi'r ysgolion gyda'u gwaith.</li> <li>• Ysgolion Arloesi Digidol = Roedd nifer sylweddol o athrawon a staff chymorth yn gallu dod i'r sesiynau ymwybyddiaeth a chymorth. Dros 660 o staff mewn nifer o sesiynau.</li> <li>• Diogelwch ar y we - 1 x ysgol gynradd wedi cyflawni'r dyfarniad e-ddiogelwch 360. Sesiynau gweithdy ar gael yn nhymor y Gwanwyn 2017 yn y 6 ALL drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Defnyddio effeithiol o CA i fodelu defnydd llwyddiannus o'r FfCD.</li> <li>• Y Tîm Arloesi sy'n cyflawni'r rôl gyfathrebu ar hyn o bryd.</li> <li>• Cynhwysedd GwE wedi cynyddu'n sylweddol. – 1 x Uwch YH ar secondiad tan fis Mawrth 2017. 2 x athro ar secondiad gyda thîm Arloesi GwE – 1 x 0.6 cynradd / 1 x 1.0 uwchradd tan fis Awst 2017.</li> <li>• Cynhaliwyd hyfforddiant ar reoli newid gyda chyfradd lwyddo o 100% ar y lefel sylfaen. Sgiliau'r tîm yn amlwg wedi'u datblygu a thrafodaeth i ddilyn ym mis Ionawr 2017 ar sut y gellir hwyluso'r sgiliau hyn ar ffurf gweithdai hanner diwrnod i bob ysgol asesu parodrydd am ddiwygio'r cwricwlwm.</li> </ul> <p>Cymorth i ysgolion weithredu'r manylebau TGAU diwygiedig a'r Fagloriaeth ddiwygiedig, yn llwyddiannus:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogaeth weddilliol a pharhaus ar gyfer y manylebau TGAU diwygiedig mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg, a gyflwynwyd ym mis Medi 2015, a</li> </ul>

Cyf	Blaenoriaethau	Monitro chwarterol
		<p>Gwyddoniaeth a gyflwynwyd ym mis Medi 2016.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwynwyd cefnogaeth i ysgolion weithredu manylebau TGAU diwygiedig ITM, Daearyddiaeth, Celf, Cerdd, Drama, Bwyd a Maeth ac AG ym mis Medi 2016.</li> <li>• Rhoddir cefnogaeth i ysgolion weithredu manylebau TGAU diwygiedig AGref, Hanes, Technegol a Chymraeg Ail Iaith ym mis Medi 2017.</li> <li>• Cefnogaeth barhaus i'r Fagloriaeth ddiwygiedig a gyflwynwyd ym mis Medi 2015.</li> </ul> <p>Cefnogi Rhaglen Genedlaethol Her Ysgolion Cymru (HYC) – Sicrhau bod pob ysgol yn gyfarwydd â'r fanyleb HYC/CBC newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymarferwyr Arweiniol (1 ym mhob hwb) yn llwyddo'n effeithiol i drefnu cyfarfodydd Hwb i rannu arferion da a SD. Bydd GwE a CBAC yn mynd i'r cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau ansawdd a rhoi sylw i bryderon. Gweler agenda/crynodeb o'r cyfarfodydd.</li> <li>• Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cyflwyno HYC – cyfarfodydd hwb (pob hanner tymor) a Grŵp Datblygu CBC Gogledd Cymru pob tymor. Diweddarir RhAD y Fagloriaeth efo'r SD a'r adnoddau newydd. Mae 1 Ymarferydd Arweiniol yn arwain ar y Pecyn Cymorth 'Rhannu arferion da' a fydd ar gael yn nhymor yr Haf 2017. Bydd cyrsiau hyfforddiant FfCD/HYC hefyd yn dangos enghreifftiau o'r arferion gorau ac addysgeg effeithiol.</li> </ul> <p>Gweler hefyd B2 – Datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel (CALU, ANG, Llwybr Datblygu Gyrfa).</p>
<b>Cynnydd: Da</b>		

Gwyrdd	Rhagorol
Melyn	Da
Melyngoch	Boddhaol
Coch	Blaenoriaeth ar gyfer gwelliant



